

MYNYDD Y GADER/MYNYDDOEDD DUON

Mae'r term Mynyddoedd Duon gyda'i fryniau a'i chefnau amlwg wedi creu trafferth ers blynnyddoedd oherwydd cymhlethdod a'r anrhefn ynglyn a'r enw a ddefnyddir. Nid oes cyfeiriad(au) cynnar at enw tebyg i Mynydd Du na Mynyddoedd Duon yn yr ardal dwyreiniol y Bannau. Mae'r enwau cynnar, Talgarth, Mynydd y Gader a Euas (Ewias/Ewyas) yn yr Itinerarium Kambriae (1191) Giraldus.

'His igitur obstaculis ad meridiera appositis, a phoebeo patriara fervore frigidior aura defendit, et insita aeris salubritate temperatissimam reddit. Ab euro vero de Talgarth et Ewyas montana prsetendit.' Mae hyn yn cyfieithu fel '..... Gan fod mynyddoedd uchel yn eu cysgodi felly ar y de, mae'r awelon oerach yn amddiffyn yr ardal hon rhag gwres yr haul, a thrwy eu hiechyd naturiol, maent yn gwneud yr hinsawdd yn fwyaf tymherus. Tua'r dwyrain mae mynyddoedd Talgarth ac Euas'.

Y cyfeiriad cyntaf at unrhyw Fynydd(oedd) Du oedd gan Leland yn ei Itinerary 1536-9, casgliad o nodiadau ac arsylwadau na chafodd ei gyhoeddi yn ystod ei oes. Gellid bod wedi cael defnydd lleol ond gwallus yr enw Mynydd Du, mynydd ymhell i'r Gorllewin. *The hilles caullid in Walsch Mennith e gader appere in Talegarth about Dinas, and so to the places about Nanthonddy, and with sum part of thes montaines meate the greate hilles caullid Banne Brekeniauc, and renneth in lenght to the Blake Montaine to my estimation apon an xviii. miles.'*

Hen enw ar yr ardal ble ceir y brynau dwyreiniol oedd Mynydd y Gader a hefyd Euas; cysylltwyd yr enw Euas at hen deyrnas ôl Rufeinig, gyda chysylltiad i'r hwicce tybed: ond yn hwyrach dim ond cwmwd bychan. Mae'r enw yn parhau mewn defnydd yn rhai mannau o swydd Henffordd fel Ewias neu Ewyas. Mae'r enw i'w weld yn y gerdd *I Harri Ddu o Euas* gan Guto'r Glyn (c. 1412 – c. 1493):

*Fywyd hir i fab Fawd hael,
A chadw o Grist iechyd a gras
Angel du yng ngwlad Euas.*

Fodd bynnag; er bod canfod yr hen dermau Forest Hen a Forest of Monow ar gyfer yr ardal ddwyreiniol, a Talgarth neu Fforest Talgarth yn yr ardal orllewinol, Mynydd y Gader neu Talgarth oedd y term cyffredin.

Yn anffodus, dyma'r ardal ble ddefnyddiwyd yr enw Hatterel neu Hatterell Hills hefyd i ddisgrifio'r ardal i gyd. Enw a symudwyd o gwmpas bron cymaint â'r term Mynyddoedd Duon. Ar un adeg fe'i defnyddiwyd fel enw ar y Twmpa, yn hwyrach yr oedd y gefn hir sy'n rhedeg i lawr i'r Ddwyrain o Drwyn Llech (Hay Bluff heddiw) wedi'i gofnodi gyda'r enw Hatteral ar y mapiau. Os oedd yna un copa o'r enw Mynydd Du yma, mater anodd iawn i'w manylu ar ei leoliad cywir nawr. I'r Gorllewin, fe enwid yr ardal o amgylch Y Gadair Fawr fel Mynydd y Gader yn wreiddiol, yn ddiweddarach fe welir yr enwau Fforest Dinas a/neu Fforest Talgarth.

Tra bo'r prif fynnyddoedd weithiau yn cael eu henwi fel Talgarth ar adegau, y prif enw mynyddig yn yr ardal yw Mynydd y Gader. Oes gan y diffiniad Mynydd y Gader, a tybed Euas i'r brynau dwyreiniol, mwy o werth hanesyddol fel enwau ar fynnyddoedd yr ardal?

Y Waun Fach 810m SO 216300

Yn syml, gwaun 'rhodir, mynydd' + *fach* - benywaidd y gair *bach* 'bychan, llai o faint'; ond, ble mae'r Waun Fawr? Wrth edrych o'r De, mae yna ymdeimlad mai Pen y Gadair Fawr yw mynydd uchaf. Hefyd, rhaid nodi mai Mynydd y Gader/Gadair oedd yr enw ar y gefn i gyd ar un adeg, dyma'r enw ar y gefn gan yr hanesydd William Rees ar ei fap o'r ardal.

Pen y Gader Fawr 800m SO 229288

Ar y mapiau AO cynnar 1832, Pen y Cader Fawr oedd enw'r mynydd ac yn hwyrach Pen y Gader fawr; ond ar un adeg fel ar fap Emanuel Bowen 1729 Mynydd y Gader oedd enw'r gefn i gyd, ac fe welir The Gadair Mountain ar fap Greenwood 1828. Ar un adeg yr enw Hetteral neu Hatterel Hills oedd ar yr holl ardal o uwchdir, enw sydd wedi symyd ymhell i'r Dwyrain.

Cyfeiriodd John Leland at y mynydd fel cadair a cader yn ei nodiadau (1536-9). Cadair drwy ddisgrifio Afon Llynfi '..... *Lleueney that cummeth owt of Atterel Hylles, the wich be cawllid in Walsch Meneth e Cadair, id est montes alti instar cathedrarum*', [sedd y mynyddoedd uchel]. Mewn rhan arall o'r nodiadau mae Leland yn cyfeirio at yr un mynydd gyda'r sillafiad cader; fel: *'The hills caullid in Welsch Mennith e gader appere in Talegarth about Dinas,'*

'In the utmost corner of the County southward, call'd Ewias, stands the ancient Abbey of Lantoni, not far from the river Mynwy, amongst Hatterel-hills; which, because they bear some resemblance to a chair, are call'd Mynydh Kader. [For Kader is the name of many mountains in Wales; as Kader Arthur, Kader Verwin, Kader Idris, Kader Dhinmael, Kader yr Ychen, &c. which the learned Dr. Davies supposes to have been so call'd, not from their resemblance to a Kadair or Chair; but because they have been either fortified places, or were look'd upon as naturally impregnable, by such as first impos'd those names on them, for the British Kader (as well as the Irith word Kathair) signify'd anciently a Fort or Bulwark; whence probably the modern word Kaer of the fame signification, might be corrupted.]' Edward Lhuyd.

Unwaith eto rhaid penderfynu beth mae'r gair cader yn disgrifio. I rai, yn syml iawn ffurf yn debyg i cadair 'sedd, eisteddfan' yw'r enw; neu, synnwyr tebyg yn dynodi safle ffigwrol o anrhydedd uchel.? Mae yna dau gwm (ar wahân), ble mae'r nentydd, a elwir bellach yn Nant y Gadair yn llifo; oes ffurf cadair? Benthyciad yw y gair cadair 'sedd' o'r Lladin *cathedra* 'sedd'; fodd bynnag, mae ystyr arall yng Ngeiriadur y Prifysgol ar gyfer cadair; un sydd yn cynnwys 'caer, cadarnle', yn ogystal ag 'anheddiad'. Credodd eraill mai ymdoddiad diweddarach o'r ystyron i'w weld yn cael ei ddefnyddio i danseilio'r ddadl dros yr hyn sy'n dehongliad dadleuol o *cader 'cadarnle'. Dylid nodi y gellir defnyddio'r dehongliad 'caer, amddiffynfa' mewn fel term ffigurol, nid oes caer ar hyd y gefn mewn gwirionedd. Yn gyffredinol yn ddiweddar mae cefnogaeth i'r ffurfiau Brythoneg *cader, *cater fel wedi tyfu.

Ar un adeg rhagdybiodd Ekwall defnydd gair Brythoneg *cader/*cater 'caer', un sy'n debyg i'r gair Gwyddeleg Canol *cathir* 'safle amddiffynnol', Hen Wyddeleg *cathair* 'caer maen': Gall hyn fod yn gysylltiedig â cad 'brwydr, byddin', yn debyg i Wyddelig *cath* 'brwydr, ymladd, byddin' yn y pendraw. Gwelir y term yn enwau mynyddoedd: Cathair, Cork; Cathair Bhláth, Kerry; Stracathro, Forfar; Seancathair, Swydd Aberdeen.

*'Ekwall in Place Names of Lancashire (p. 50) and in early editions of Dictionary of English Place Names, proposed for Chadderton Lanc a British cognate of OIr cathir, *caterā- > neoBrittonic *cader, but he abandoned this in the 4th edition of Dictionary of English Place Names, 1960. There is no evidence for such a word in Brittonic, but, again, that a loan-word meaning 'a chair' came, apparently quite quickly, to be used as a place-name for 'a fort' is perplexing.'* AG James: The Brittonic Language in the Old North (2017).

Pen y Manllwyn 775m SO 213309

Nid copa cywir ond terfyniad ar sbardun; fe geir manllwyn fel ffurf amrywiol ar y gair manllwdn 'dafad, anifail bach'. Mae rhai yn cynnig ffyrfiau fel man 'lle, ardal' neu mân 'bach' + llwyn 'coed, perth'.

Pen Allt-Mawr 719m SO 207244

Pen 'blaen, copa, diwedd' + *allt* 'llechwedd, clogwyn, uchder neu llechwedd coediog' + *mawr* 'eang'. Ychydig i'r De ceir Pen Gloch y Pibwr (SO 204233). Nid oes yna gopa, ond wrth edrych o'r dyffryn mae'r esgair yn edrych fel copa arwahan. Pen-allt-mawr AO 1832.

Pen Rhos Dirion 713m SO 212334

Mae'r Mapiau Ordnans cynnar yn dangos yr enw Pen Rhos Dirion ar y copa; heddiw, fe welir yr enw ymhellach i lawr, fel enw ar lechwedd. Mae'n ddigon posib mai'r enw go iawn fyddai Pen y Rhos Dirion, gydag un ystyr o'r gair *tirion* 'tyner, ysgafn'; mae yna ystyr arall, sef *tirion* 'tiriogaeth, gwastadedd, glaswelltir'. Hefyd, gallai llygredd lleisiol ddigwydd i'r gair rhosdir; sef newid ar lafar i ymestyn a ffurfio Rhos Dirion. *Rhos* 'ucheldir; corstir, gwastadedd, sbardun' yn debyg i Cernyweg *ros* 'bryn, sbardun; penrhyn' a Llydaweg *roz* 'ucheldir, ochr dyffryn; i gyd o'r Brythoneg **rosto-* 'penrhyn, uwchdir; corsdir'. Pen-rhos-tirion AO 1832.

Twyn Llech 703m SO 256350

Nid yw hyn wedi'i enwi felly ar y map AO presennol, er ei fod yn cael ei nodi gyda'r enw ar rai mapiau digidol. *Twyn* 'copa, pentwr' + *llech* 'cerrig, llechi' a Gwaun Llech yw'r enw tebygol arall. Mae'r enw Twyn Llech i'w weld ar lethrau'r mynydd; mae'n sicr ei fod wedi cael ei alw'n Black Mountain ar fapiau cynnar er mai termau gwasgaredig ydyw, yn debyg i Hatterall Hill. Mae'r map 6" AO 1840-1880 yn defnyddio Black Mountain yma fel yr enw ond fel enw ar nifer o leoedd eraill; tra bod map 1832 yr AO yn rhoi enw Hatterall Hill i'r grib gyfan sy'n arwain y De Ddwyrain tuag at yr hyn sydd bellach yn Hatterall Hill. Mae rhai yn dal eisiau i'r grib gyfan gael ei henwi fel Hatterall Hill heddiw.

Pen y Trumau 707m SO 204294

Pen 'diwedd' + *y* + *trumau* - un lluosog y gair *trum* 'crib mynydd, copa, cefnen'.

Twyn Tâl y Cefn 702m SO 221325

Wrth edrych ar fap yr hanesydd William Rees 1933, oedd yr enw Pen Rhos Dirion ar hyd y gefnen. Dyma'r enw arall, sef *twyn* 'bryncyn, copa' + *tâl* 'ddiwedd, pen' + *y* + *cefn* 'cefn'.

Pen Cerrig Calch 701m SO 217224

Cerrig 'creigiau' + *calch* 'calchfaen' y cyfeirir ato yn yr enw, a cheir haen o galchfaen yn yr ardal. Roedd yr haen denau o galchfaen carbonifferaidd mor anghydnaws â'r copaon eraill yn yr ardal fel y rhoddodd ei henw i'r mynydd. O'r Lladin *calx*, fe roddwyd y Gymraeg Canol *calch* neu'r Frythoneg **calco-* y gair Gwyddeleg *cailc*.

Mae'r enw Cefn Digell Hill sydd i'w weld yn y safle ar fap 1831 Greenwood, gyda'r elfen cefn 'trum' yn cyfeirio at yr esgair fynydd hir; ond, beth sydd yn ddiddorol yw'r term digell. Tybed os y negyddol *di-* 'heb' + *cell(i)* 'llwyni, coedwig'; i ddynodi rhan o'r mynydd heb goed. Neu, gydag amheuaeth; *di-* + *cell* 'gwryw'r carw coch' – ffurf dywyll yn y gair *cellaig* 'carw coch gwrywaidd' [rhaid nodi *cell* + *gi* 'staghound'], i ddynodi rhan o'r mynydd heb geirw (?). Pen-cerrig-calch AO 1832.

Twmpa 682m SO 225350

Heb enw ar fapiau AO 1" Cyfres Cyntaf, Rhiw Wen yw'r enw a gofnodwyd af fapiau 6" AO cynnar gyda'r enw Twmpa yn cael ei gofnodi gyda ysgrifen llai. Erbyn ail gyfres y mapiau 6" ma'r enw Rhiw Wen wedi diflannu.

Un ffurf y gair twmpath yw *twmpa* 'pentwr, crug, mwdwl'; ond, mewn rhai mannau yn dangos yr un ystyr a *begwn* 'crug tân'. Mae'r term twmpa yn cyfeirio at y nodwedd hynod grwn a geir ar ben y gefnen a nid y copa pigfain arferol sy'n gysylltiedig â nifer o'r Bannau eraill. Felly, mae yn sefyll allan yn wahanol i'r copaon eraill; yr enw arall a welir yn aml yw Rhiw Wen, weithiau ar y copa

weithiau yn is. Enw'r gefnen yw Y Darren Lwyd; mae hefyd wedi'i ddynodi fel Lord Hereford's Knob yn y gorffennol. Mae pen De Ddwyrain y grib wedi'i nodi fel Trwyn y Tâl yn y gorffennol ar Fap Greenwood 1834, Rhiw Wen/The Tumpa 1840-80 6" AO.

Y Das 680m SO 201327

Mwy o sbardun na chopa, y gair *tas* 'cruglwyth, (tas)gwair, pentwr, twr', Cernyweg *das* 'twmpath'; unwaith eto enw sy'n cyfeirio at twmpath pen fain. Mae posib nodi bryn arbennig gyda defnydd o'r fannod y neu yr. Cyfystyr a'r Gwyddeleg *dais* 'corn, cruglwyth'.

Cwarel y Fan 679m SO 259294

Cwarel 'chwarel' + y + *fan* 'uchder, copa', oherwydd y cwarel bychan ar ei gopa; mae'r enw Y Fan (SO 246303) ar y llechwedd. Cwarel y von 1830 map Greenwood.

Trwyn Llech/Hay Bluff 677m SO 244367

Trwyn Llech yw'r unig enw a welir am y mynydd ar fapiau cynharaf yr AO 1832; mae hyn yn debyg iawn i'r Twyn Llech a welwyd ychydig i'r de am y tro cyntaf ar fap 1840-80 6" ac ar y map OS presennol sydd bellach tua chilomedr i ffwrdd, yn (SO 247256). Mae'r term *trwyn* 'diwedd crib, pentir, tâl cefn' yn ddisgrifiydd addas iawn ar gyfer nodwedd tirweddol hwn + llech 'maen, craig wastad', Hen Gymraeg *lech* 'carreg fflat, llechan'. Efallai fod y term *twyn* 'pentwr'sydd yn gywir, mae'n air sy'n swinio'n debyg i'r gair *trwyn* ac yn hawdd ei gymysgu.

Defnyddiwyd dau enw arall, yn eithaf hwyr, sef Pen y Begwn a Pen y Beacon. Mae tomen o danwydd (fel arfer o eithin) yw'r *begwn* 'crug tân', ac fe'u sefydlwyd i'w goleuo ar dân fel rhybudd, neu ddatliad; hefyd, gellid enwi bryn neu fynydd a fyddai'n safle da ar gyfer golau o'r fath yn begwn. Fodd bynnag, byddai ffurfiau bryniau sy'n edrych fel fflagl hefyd yn rhesymeg dros enw o'r fath, ac mae nifer o fryniau yn yr ardal yn dangos y ffurf honno. Ar un adeg fe'i nodwyd fel Hatterel hil 1578 Saxton, Haterell Hill 1610 Speed, nawr yn Saesneg fel Hay Bluff a Black Mountain hefyd.

Ond, tybed os oedd enw cynharach, mae disgrifiad y ffin yn Llyfr Llandaf c.1120-34 yn rhoi: '..... *dyr uyncul dyr brydell dy hal ruma dy main y bard ynlycat nat y bard. nant y bard nihyt yr guayret hyt pandyscein yn dour.*' sy'n rhoi [... i'r **Vyncul**, i'r **Brydell**, i **Hal Ruma** i **Maen y Bardd**, at llygad **Nant y Bardd**, **Nant y Bardd** ar ei hyd lawr nes disgyn i'r **Dour**]

Y Vyncul yw'r bwlch sydd bellach wedi'i nodi ar y map fel Gospel Pass, tra bod llygad 'tarddiad' Nant y Bardd a welir heddiw fel Nant y Bar yn 275402; mae Maen y Bardd ger y tarddiad a'r Afon Dour yw Afon Dore. Felly, mae gennym Brydell a Hal Ruma fel enwau ar fryniau o bob tebyg. Bridell yw'r enw yn Archif Melville Richards, tebygol mai ffurf amrywiol y gair priddell 'clwmp, darn, talp o bridd, caled' sydd; yn debyg i'r enw Briddellarw. Ai hwn oedd yr hen enw ar y copa; rhaid nodi'r enw cnapiau yn gyson ar y llechweddau (SO 238352); cnap 'talp, darn' o'r Gwyddeleg *cnap* 'twlp, pentwr' neu'r Hen Nors *knapp* 'cnwc'? Mae hyn yn gadael hal ruma fel enw ar y bryn; *hal* 'gwaun, ucheldir', sy'n gysylltiedig â'r Cernyweg *hal* 'rhos' + *ruma* neu *rhumen* 'bol'; termau eithaf prin heddiw.

Pen Gloch y Pibwr 674m SO 206233

Nid yw'n copa cywir, un pen o gefnen hir ydyw, ond mae pwynt uchder yno ac y mae wedi ei enwi fel bryn. Rhaid nodi'r carnau Oes Efydd yn agos at y copa, yn adlewyrchu pwysigrwydd y safle i'r rhai a oedd yn byw yn y dyffrynnoedd ar un adeg. Mae ystyr y gair *pen* 'copa' yn eithaf syml a hefyd y *pibwr* 'un sy'n canu pib, pibydd' (ond braid yn anghyffredin fel enw yn y mynyddoedd). Y gair *cloch* sy'n creu trafferthion: os *cloch* 'cwpan fetel', ai dynodi ffurf un o'r carnau sy'n debyg i gloch; neu, a'i llygiad ar y gair *clog* 'craig', yn gysylltiedig â'r Cernyweg *clog*, *clugh* 'clogwyn', Gwyddeleg *cloch* 'craig'?

Rhaid nodi mai fel Briannog Hill mae map 1831 Greenwood yn cofnodi'r mynydd. Fe weler y ffurf Bryniog yn (SO 199224); ond os nad *bryn* 'bryncyn' + -og 'cysylltiad ag, tueddiad i', oherwydd un cefnen go esmwyth sydd, tybed os *bryn* 'banc' + -og sydd.

Y Fan 671m SO 259314

Gwelir yr enw'r Y Fan tua un kilometr i ffwrdd i'r gogledd orllewin; ond, ar y copa Chwarel y Fan sydd fel yr enw, Cernyweg *ban*, *van* 'uchder'. Ond Cefn y Capel oedd un enw ar y gefnen ar un adeg; enw sy'n gysylltiedig â Chapel y Ffin.

Mynydd Llysiau 663m SO 207278

Gall bachigyn y gair *llysiau* 'planhigion, llystyfiant' fod yr union ystyr, i ddynodi glaswelltir. Fodd bynnag, a yw ffurf lygredig y gair *llusau*, sef lluosog eilaidd y gair *llus* 'aeron glas tywyll' wedi datblygu. Waun Fain oedd yr enw sy'n dynodi'r gefnen gul ar fap Greenwood 1823; naill ai, *main* 'tenau' neu *main* fel llygiad cyffredin y gair *maen* 'carreg'.

Pen Twyn Mawr 658m SO 242267

Pen 'copa' + *twyn* 'twmpath, pentwr, bryn' + *mawr* 'eang'. Mae twyn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio bryniau o dywod neu brynau bychan mewn rhai ardaloedd, yn y De fe roddi'r yr enw ar fynyddoedd.

Pen Twyn Glas 646m SO 213257

Mae'r term lliw *glas* 'llwyd, llwydilas, gwyrdd' yn creu anhawster ar ran enwau tirwedd. Rhaid gofyn pa liw yn uion sydd iw weld a cofio mai dim ond yn hwyr yn ei ddatblygiad daeth y gair i olygu'r lliw *glas* 'morlas'. Y gair Lladin *glaucous* 'llwydilas, gwyrddlwyd' sydd yn ei ddiffinio'n dda. Mae gweddill yr enw, *pen* 'copa, diwedd' + *twyn* 'pentwr, tomen, bryn' yn syml.

Crib y Garth 640m SO 275348

Fe all *crib* 'cefnen' + *y* + *garth* 'penrhyn' ddynodi nodwedd dopograffigol digon tebyg i sbardun 'esgair, cefn, trum'; ond y tebygrwydd yw bo'r gair *crib* 'brig' yn dynodi'r clogwyn ar frig y gefnen. Black Hill yw'r enw map arall ar y mynydd, a'i hwn oedd y Mynydd Du gwreiddiol (a ddatblygodd i Mynyddoedd Duon?). Gwelir yr enw gripegarth ar fap William Rees 1933 a hefyd Crib'r-garth AO 1832. Y tebygrwydd yw mai ôl-gynhyrchiad yw'r ffurf Crib y Gath sydd wedi galluogi'r Saesneg anghywir 'the Cat's Back'.

Cefn y Gaseg 637m SO 267322

Yn ddienw ar fapiau'r AO dros nifer o flynyddoedd, mae'r uwchgynhadledd *fach* ar ben y grib yn cael ei nodi fel Cefn y Gasseg gan Henry Price yn ei A New Map of Monmouthshire 1823; enw sydd hefyd i'w weld ar Fap Greenwood, Sir Fynwy yn 1830. *Cefn* 'cefnen, trum' + *y* + *caseg* 'benyw'r march' yn hytrach na'r gair *caseg* 'crychni, anwastadnedd'. Fe welir yr enw fel Kevenecassec yn y 1324 Calendar of the Charter Rolls sy'n cofnodi'r rhodd fel: '*Ble mae, Walter de Lacy, mab Hugh de Lacy, yn rhoi y dyffryn i gyd ble lleolir yr eglwys hynny yw ar oche Kevenecassec a Askaresweye ac ar hyd y Ruggesweye i fyni at Autefyn ac ar ochr Haterel o dir Seisel mab Gilbert ar hyd y Ruggesweye at ffinnoedd Talgarth.*'

Mae hi'n edrych fel bo'r testun y siarter yn cytuno yn union gyda'r mapiau cynnar, ond mae yna anhawster. Oherwydd mae'r hanesydd William Rees, yn ei fap South Wales and the Border in the XIV Century (1933); yn lleoli'r enw Y Cefn Cassec ar hyd y gefnen i'r Gorllewin o Llanthoni, yn union ble mae Chwarel y Fan wedi ei leoli heddiw. Mae yna Rugge(s)weye (ridge(s)way = cefnffordd) wedi ei ysgrifennu ar y gefnen ychydig i'r de hefyd; tra bo'r Rugge(s)weye arall wedi ei gofnodi ar y gefnen i'r Dwyrain o Llanthoni. Yn anffodus, nid yw'r enwau Askaresweye (?Esgair + way?) a'r Autefyn (?Antefin/Yn terfyn?) yn destun y siarter o unrhyw gymorth i leoli enwau heb ymchwil ychwanegol. Ond, oherwydd bo'r Hatterel a thiroedd Seisel/Cecil (o gwmpas Hengastell)

i'r Dwyrain y tueddiad yw derbyn mai Cefn Caseg oedd hen enw Chwarel y Fan ar y gefnen orllewinol. Mae angen mwy o ymchwil.

Mynydd Troed 609m SO 173283

Mae derbyniad lleol mai ffurf arbennig y mynydd sydd ty gefn i'r enw, sef un sydd yn edrych yn debyg i droed anferth, enwedig o'r uwchdiroedd i'r Dwyrain. Oedd porfa mynydd hen fferm yma gyda troed yn yr enw, rhaid nodi fferm Troed yr Harn yn SO 168323. Dywedir rhai mai cyfeiriad at y gair troad, troead yn cyfeiriad y mynyddoedd sydd; bryn wrth droed mynyddoedd uwch; neu, yn amheus iawn, fe gynigwyd mai llygriad o'r hen air troeth 'urine' sydd. Neu, oedd yr enw yn un llawer hirach ar un adeg; yn wreiddiol, tybed os oedd o'n rhywbeth tebyg i'r enw ar fryn Allt Troedrhiwfelen 233m SO 786355.

Yn Llyfr Llandaf c.1120-34 mae disgrifiad o'r ffin ar ôl gefnen '*cecyn y pennypyn march*' a cyn yr enw '*rytnant*' yn rhoi'r enw '*guornoyd*' neu '*guornoid*'. Dyma beth mae JG Evans & Syr John Rhys yn cynnig yn y llyfr: *The Text of the Book of Llan Dav* (1893) '*..... to Guornoid? the ridge of Mynydd Troed*'. Mae Archif Melville Richards yn cynnig yr enw fel Gornoeth; oes posib gweld gor 'llawer' neu 'mawr, uchel' + *noeth* 'llwm' fel hen enw ar y bryn? Ceir Gornoeth fel enw yn dau safle arall yng Nghymru, enwau bryn/cefnen.

Bal Mawr 607m SO 267271

Mae Geiriadur y Brifysgol gofnod o'r gair *bal* 'moel' aneglur braidd, yn ogystal â bâl 'copa, pwynt' bâl sydd i'w weld fel elfen olaf Pen y Fal, ond wedi ei gymhwyso gyda datganiad - 'ansicr yw ystyr a tharddiad yr elfen honno'. Tra mae Alan G James, yn ei 'The Brittonic Language in the Old North': (Scottish Place-name Society Website) yn rhoi '*bāl (f.) Brittonic *bal-m-ā- > Middle-Early Modern Welsh bâl, Modern Breton bal. The meaning in Welsh is 'summit', in Breton 'steep beach or slope': the root sense may be inferred from Welsh balog, Cornish balek '[something] projecting, sticking up or out'.

Mae'r cysylltiad tebygol yn yr enw â llygriad Seisnigaidd o'r foel/moel i'r elfennau bal/fal yn yr enwau hyn yn eithaf cryf. Trafodwyd datblygiad ffurf lygredig o'r gair moel i roi sillafiad vale neu fal/val gan sawl un dros y blynyddoedd, a gan nifer o awduron. Yn ei Parochialia, sylwodd Edward Lhuyd c.1700: *Moel* - 'The people about Abergavenny in Monmouthshire, having lost the true notion of this word, call a sugar-loaf-hill near the town, the *Vale*'. Hefyd yn y geiriadur: A Welsh and English Dictionary '*Bal* - A prominence, or what juts out. It is applied to mountains that terminate in a peak, in some parts of Wales, for which moel is used in other parts' 1793 William Owen (-Pughe). Hefyd, rhaid nodi, ar lafar yn lleol, fe glywir ynganiad agosach i fôl i'r gair moel/foel.

Loxidge Tump 605m SO 288297

Fe'i gofnodwyd fel Loxy Tump ar fap AO 1832 yn weddol agos at y brig. Llygredd y gair *lochi* 'noddi, llochesu' neu *lloches* 'noddfa, gorchudd, annedd' yw'r enw; fe welir lloches cyn-hanesyddol yn uchel ar y mynydd (SO 286295). Cofnodwyd y fferm o dan y bryn hefyd fel Loxy a Loxid ar fapiau cynnar. Mae rhai wedi ceisio symud yr enw clogwyn Darren Goch i fyny ochr y bryn fel yr enw ar y bryn. Llygriad neu saesnegeiddiad y gair *twmp* 'bryncyn, ponc, twmpath, crugyn, pentwr' i'w tump.

Sugar Loaf/Mynydd Pen y Fal 596m SO 273188

Yr enw a welir ar fapiau'r AO yw Sugar Loaf a'r ffurf Y Fal mewn cromfachau; ond, tua kilometr i ffwrdd gall nodi Mynydd Pen y Fal i'w weld, yn (SO 263192). Ar fapiau cynnar yr AO yr oedd yr enw Mynydd Pen y Fal ar y copa. Y rheswm y tu ôl i'r enw siwgr torth yw'r tebygrwydd ffurf y mynydd i'r dorth o siwgr a oedd pobl yn prynu cyn i siwgr man ddatblygu mewn poblogrwydd. Yr oedd y ffurf yn atgof o foel pyramidaidd. Yma, ac ar fynydd Bal Mawr gwelir yr unig enghreifftiau

o'r ffurf fal neu bal yn enwau mynyddoedd Cymru. Hefyd, nid oes cysylltiad â unrhyw derm topograffigol yn y Wyddeleg, Gaeleg na'r Gernyweg. Rhaid nodi'r disgrifiad yn yr Antiquae linguae Britannicae ed. Thomas Richards (1753). *'Moel or Y Foel, doth also signify metaphorically a towering hill on which grows no wood. Hence, Moel came to be the name of many such hills as have no woods growing on them. Moel doth also signify a heap of corn, butter, and of other things of the like sort, when raised up like a pyramid above the brim or summit of the vessel in which it is contained.'*

Wrth edrych ar yr enwau cyntaf a gofnodwyd ar y mapiau, maent yn tueddu cyfeirio tuag at lygriad *moel neu y foel*, drwy ffurf anghywir Saesneg vale i gyrraedd - val. Dim ond ar fap Henry Price yn 1823 mae'r ffurf Pen y Foel iw weld. Ond fe ysgrifennodd Edward Lhuyd c.1700: *Moel - 'The people about Abergavenny in Monmouthshire, having lost the true notion of this word, call a sugar-loaf-hill near the town, the Vale'*. Hefyd yn y Parochialia mae un yn gweld y ffurfiau Fforest Moel ac Y Mynydd Moel ar gyfer y bryn.

Ar fap yr *hanesydd* William Rees 1933, gwelir dau enw arall yn yr ardal, sef Moel Fannau a Moel y Fan Forest; mae'r forest yn cyfeirio at dir hela. Mae'r ffurf Moel y Fan, gall yr elfennau roi: *moel* 'llwm, copa llwm' + *y* + *ban* 'blaen, pwynt, pigyn'; ond, oherwydd ei ffurf arbennig *moel* 'copa pigfain, bryn conigol' + *y* + *ban* 'blaen, pwynt, pigyn' sydd yn debygol. Os Moel Fannau, enw sydd yn cyfeirio at y nifer o gefnau sy'n ymestyn i lawr o'r copa drwy ddefnyddio ffurf y gair *ban* sy'n debycach i'r Wyddeleg *benn* 'pentir, sbardyn' yn hytrach na *ban* 'copa, pwynt'.

Penuaiell Hill 1579, Penuatell(?) 1611 Speed, Penuaiell Hill 1645 Janz, Pen y vale 1785 Snell map, Pen y voel 1823 map Henry Price, Mynydd Pen y Fâl 1830 AO.

Pen Gwyllt Meirch 580m SO 250250

Mae'r enw yn edrych fel un syml i'w ddehongli; *pen* 'copa' + *gwyllt* 'heb ei ddofi' + *meirch* 'ceffylau', lluosog y gair *march* 'ceffyl'. Fe all y gair *gwyllt* ddynodi darn o dir gwael neu uwchdir i bori meirch mynydd. Fodd bynnag, os yw'r enw fel y'i gwelir ar fap AO 1832 Pen-gwellt-march, byddai hyn yn rhoi ystyr hollol wahanol, gan fod *gwellt* 'gwair, porfa' + *march* 'ceffyl' yn dynodi ardal o dir ble roedd meirch yn pori.

Cwrwm 552m SO 304279

Nid yw'r enw ar y mapiau AO, ond fe welir yr enw Rhiw Arw ar rai mapiau digidol ar gyfer y copa. Mae tuedd gan rai llunwyr mapiau digidol i godi unrhyw enw cyfagos fel enw.

Mae yna ddisgrifiad ffinol tir eglwysig Merthyr Clydog yn Llyfr Llandaf c.1120-34 sy'n darllen: *'Finius illius est, lapis inigoun breith i cecin inihit di rui curum, dirmain icecin iralt arhit cecin diuinid bet i mein arcuier nant trineint diguaret ar i hyd bet elchon'*

Mae cyfieithiad yn darllen yn debyg i: 'Dyma ei ffin, craig yn y **Goun Breith** y cefnen yn ei hyd at **Rui Curum**, at y maen i cefnen i'r allt ar hyd cefnen i fyny at y maen ar gyfer nant **Trineint** i lawr ae ei hyd at **Elchon**'.

Yn ôl pob tebyg Goun Breith - Gwaun Brith yw beth a elwir ar fapiau AO heddiw fel Hatterel Hill, ac mae'r maen ar gyfer y Trineint yn 298286; y Trineint (Turnant heddiw) yw'r nentydd sydd yn llifo i lawr i'r Elchon – sef yr Olchon.

Ond beth am Rui Curum, sef y Rhiw Curum? Mae hen fapiau 6" yr AO 1840-80 yn dangos mai Rhiw Cwrw oedd yr enw ar fferm/bwthyn bychan (SO 309271) yn union o dan y copa. Rhiw Arw, yw enw'r llwybr sy'n ymestyn at y brig, gyda *garw* 'anodd' yn disgrifio'r llethr serth, ond ar lafar yn lleol Rhiw Cwrw yw'r enw o hyd. Yr oedd Bryn Cwrw fel enw ar hen fap 1832 yr AO yn ardal

Mynydd y Glog/Onllwyn. Y tebygrwydd yw mai cais i esbonio'r gair cwrw yn y man oedd defnydd y ffurf (g)arw, fe welir yr enw Rhiw Garw ar fap yr AO 1832 fel enw ar y llwybr i fyny'r rhiw. Mae yna air sy'n cytuno gyda'r dirwedd a'r sillafiad cynnar: *cwrwm*, *cyrrwm* 'crymedd, cefn crwm, cefn'. Yn y geiriadur 1688, Cymraeg Yn Ei Ddisgleirdeb fe welir: *cwrwm* – gwyriad 'a lumpish shape'.

Oes posibilrwydd (amheus?), bo'r hen air *gwrwm*, *gwrwm* 'llwydfrown, tywyll-llwyd, tywyll, du, tywyll-las', yn gysylltiedig â Hen Wyddeleg *gorm* 'glas tywyll, gwyrdd; tywyll, du' yma? Mae'r gair yn y geiriadur, ond yn un brin iawn yn y Gymraeg, defnydd llenyddol 13&14C yn unig. Hefyd, nid oes unrhyw enghreifftiau wedi'u cofnodi mewn enwau yn Archif Mellville Richards ledled Cymru.

Crug Mawr 550m SO 262227

Gall y term *crug* ddynodi nifer o ffurfiau topograffigol 'boncyn, cnwc, twmpath, carnedd neu domen', anodd weithiau i benderfynu pa un o'r termau sydd ar gael mewn safle. Wrth edrych ar fapiau Ordans fe welwn fod y bryn yn rhan o gefnen go hir, ond wrth edrych at y copa fe fydd y bryn yn sicr o atgoffa rhywun o domen neu fwdwl mawr.

Disgwylfa 541m SO 258234

Yr elfennau yn yr enw yw *disgwyl* 'edrych allan, gwylfa' + *ma* 'lle, man' i ddynodi 'safle da i wyllo, gwylfa, gwylfaeth'. Enw da ar unrhyw fryn sydd gyda golygfa dda o'i gwmpas, enwedig wrth edrych allan a gwyllo'r anifeiliaid yn pori ar y mynydd.

Hatterall Hill/Gwaun Brith 531m SO 308257

Mae'r enw Hatterall Hill wedi symud sawl gwaith wahanol fapiau; o'r Hen Ffrangeg *haterel* 'brig, coron y pen'. Ar un adeg fe roddwyd yr enw ar gopa Pen y Gadair Fawr; yn hwyrach ymlaen fe enwid Trwyn Llech/Hay Bluff gyda'r enw *ac* wedyn ar y gefnen sy'n ymestyn i'r De o Trwyn Llech/Hay Bluff. Dyma'r copa ble welir yr enw ar fapiau cynnar yr AO yn 1838; copa ble mae'r enw Cwarau'r Waun iw weld mewn ysgrifen lai. Ond ar fap Henry Price A New map of Monmouthshire 1823 fe nodwyd enw'r bryn fel Twyn Sych; sef *twyn* 'bryncyn, brig, top' + *sych* 'heb wlybanaeth' – i ddynodi bryn heb lawer o nentydd, dim ffynhonnellau dŵr; neu, tueddiad i grasu.

Oherwydd drysni yr enwau Black Mountains a Hatterel Hill(s) mae rhai wedi rhoi'r enw Mynydd y Gadair fel enw ar y copa yma, i geisio 'cywiro' sefyllfaoedd eraill tybed (?) - mae Mynydd y Gader i'r Gorllewin; gweler Pen y Gader Fawr.

Mae un siarter yn Llyfr Llandaf c.1120-34 yn rhoi disgrifiad ffin ar gyfer tir eglwysig Merthyr Clydog, sydd bellach yn rhan o Swydd Henffordd. Cofnodir dechrau'r ffin fel '*..... lapis inigoun brith, icecin.....' tra bo'r pwynt gorffen ar ben y bryn fel '..... iuinid diurchu irguoun breith ar cecin.....'*'; mae'r rhan olaf y ffin yn debyg iawn i'r ffin a welir heddiw rhwng swydd Henffordd a Gwent.

Gellid cyfieithu'r datganiad 'inigoun brith' fel 'yn y \gwaun frith 'rhostir amryliw'. Ni ddefnyddiwyd priflythrennau ar gyfer enwau yn gyffredinol, ac nid oedd atalnodi chwaith; fodd bynnag, byddai'r disgrifiad diwedddol yn cefnogi mai Gwaun Brith oedd yr hen enw ar y bryn. Mae'r enw: Cwarau'r Waun, ar fap cynnar yr AO yn rhoi ychydig o gefnogaeth.

Bal Bach 520m SO 276264

Y tebygrwydd yw mai llygriad y gair *moel* 'bryn llwm' neu 'bryn conigol' yw'r elfen bal. Bal bach 1830 map Greenwood.

Mynydd Llangors 515m SO 159267

Mae'r enw presennol ar y mynydd wedi'i godi o enw'r pentref/plwyf. Fe gofnodwyd y bryn yma gyda'r enw Bryn Eital ar fap William Rees 1933. Ond yn yr ysgrifen wreiddiol siarter Langors yn Llyfr Llandaf c.1120-34 mae'r bryn yn gysylltiedig â'r afonig o'r enw Tawel, nid Afel fel a roddir weithiau. Mae'r afon Nant Tawel ac felly Bryn Eital [Pentwyn heddiw] ar ochr arall y dyffryn; gyda'r Afon Tawel yn Llifo drwy Llanfihangel Tal-y-Llyn.

Ond fe all fod enw arall, y tebygrwydd yw mai'r bryn yw'r nodwedd a enwir fel cecyn y pennypynn march yn Llyfr Llandaf c.1120-34 ; gyda *cecyn* neu *cegin* 'cefnen' + *pen* 'diwedd, blaen' + *pyn*, *pynn* 'pecyn, llwyth' + *march* 'ceffyl'. Fe all y ffurf *cecyn* 'cefnen' y *penn* 'pen, blaen, tarddiad' + *pynfarch* 'ceffyl pecyn' (packhorse) awgrymu crib gyda ffurf sydd yn debyg i gefn ceffyl [gyda llwyth?]; neu, cefnen ble roedd ceffylau yn croesi neu gludo ar ei hyd. Fodd bynnag, er gwaethaf ystyr cyffredinol *pynfarch* 'ceffyl pecyn', mae yna ystyron eraill. Fe all *pynfarch* ddynodi 'ffrwd melin' artiffisial; neu, nant sy'n llifo i'r felin; yn ffigurol, rhywbeth sy'n rhoi'r nerth [horse-power] i'r felin.

Mae Archif Mellville Richards yn cofnodi'r enw Pen y Pynmarch a'i leoli yn (SO 1524), yr union fan lle mae nant o'r enw Nant y Felin heddiw. Felly, a yw'r enw yn cyfeirio at y *cecyn/cegin* 'crib' sydd uwchben - *pen* 'tarddiad' + *y pynmarch* 'y ffrwd melin'?

Y Graig Ddu 503m SO 285267

Hwn yw'r unig enw gerllaw copa'r sbardun. Mae'r graig yng nghysgodol yn y pnawn ond tybed os enw gwrthgyferbyniol i'r Garn Wen ydyw (SO 281255).

Blaen yr Henbant 498m SO 218225

Nid *blaen* 'diwedd, pen pellaf, tarddiad', fel a welir yn aml yn yr ardal; ond, blaen 'pen, copa'. Yr hen bant oedd yr ardal gwreiddiol y trigolion. Defnyddir y term hen ar gyfer lleoliad sydd wedi'i glirio ar gyfer amaethyddiaeth neu anheddiad yn gynnar. Blaen-yr-hen-bant 1832 AO.

Bwlch Bach ar Grib 490m SO 184330

Fe welir carn Oes Efydd ar y copa; ond nid oes enw ar y bryn bychan, sy'n rhan o'r gefnen o'r enw Y Grib sydd yn ymestyn i fynnu tuag at uwchdir y Gadair Fawr. Mae disgrifiad ffin yr esgobaeth yn Llyfr Llandaf c.1120-34 yn rhoi 'dy ol y gabr dy bron cateir' ac ar y grib mae William Rees, ar ei fap 1933, wedi rhoi'r *bron* 'ochr bryn' + *cateir* 'cadair, cader'. Y tebygrwydd yw mai llwybr drwy neu i fynnu at y mynyddoedd yw'r *ôl* 'llwybr' y *gabr* 'gafr'.

Ysgyryd Fawr 486m SO 331183

A yw'r enw yn tarddu o *ysgyryd* 'arw, anodd', sef enw sy'n debyg o ran ystyr i enwau fel Y Drosogl neu Yr Arw; rhaid nodi y rhoddir enw ar lethrau'r bryn fel Yr Arwallt (SO 337186). '*Ysgyryd - yr ysgyryd fawr y gelwir mynydd ger llaw Yfenni yn Sir Fynwy.*' *Antiquae linguae Britannicae* (1753). Y mae eraill yn gweld yr enw yn gysylltiedig ag *ysgyrion* 'darnau, sglodion'; neu, hyd yn oed term sy'n deillio o'r gair *ysgwrrn* 'rhew, llithrigrwydd, arwynebedd o dir gwlyb wedi'i galedu gan rew' yn gysylltiedig â'r Llydaweg *scourn*, *scorn*?

Iscirit c.1120-34 Llyfr Llandaf. Cofnodwyd enw'r mynydd fel iscirit mawr gan Leland(c.1536-9), Skyred vaure 1538 Valor Ecclesiastent, Skiridvaure Hill 1610 Speed; erbyn 1700 gwelir Skerid fawr ac yn 1794 Skirid Vawr, Skirrid Fawr 1828 Greenwood Map.

Crug Hywel 482m SO 226207

Tra bo Hywel yn enw personol, os oedd yr enw yma ar y bryn, mae'n anodd penderfynu pa Hywel. Mae'r enw personol yn deillio o'r Gymraeg Canol *Higuel*, cymharer â'r Llydaweg *Hoël*; o'r Frythoneg **Suwelos* 'teg yr olwg arno' gyda'r synnwyr 'parchus'. Os nid enw personol, mae'r gair hywel 'gweladwy, gweledig' yn sicr yn enw topograffigol da ar y bryn, gyda chopu gwastad a'i amddiffynfa o'r Oes Haearn. Crecowell Saxton 1578, Crecowell Speed 1611, Krick Howel c.1700

Parochialia, Crug Hywel 1832 AO.

Y Garn Wen 475m SO 281255

Y llechweddau heulog a gloyw y bryn gyda'u hagweddau deheuol yw'r rhesymeg y tŷ ôl i'r disgrifydd gwyn (benywaidd gwen).

Castell Dinas 444m SO 179302

Enwir y bryn oherwydd yr amddiffynfa hynafol gyda golygfa ardderchog, enw sy'n deillio o'r Hen Gymraeg *din* 'amddiffynfa', Cernyweg *dynas*, Brythoneg/Gauleg **duno*; tra bo'r gair castell yn llawer mwy diweddar, Brythoneg **castellon* 'castell' benthyciad o'r Lladin *castellum*. Dinas Castel 1536-9 Leland, Cast. Dynas 1645 Map Jansz.

Mae'r casgliad o gloddiau amddiffynnol yng Nghastell Dinas yn gorchuddio ardal o tua 36m wrth 280m ac yn cynrychioli'r adfeilion cadarnle cerreg a godwyd yn Oes Haearn. Credir i'r castell gael ei adeiladu ar ddiwedd y ddeuddegfed ganrif fel y'i crybwyllir gyntaf ym 1234. Fe'i disgrifir mewn arolwg yn 1337 a chredir iddo ddod i ben yn fuan ar ôl hynny, gan i Leland adrodd bod y castell wedi'i dinistrio yn nheymasiad Harri IV.

Yn Llyfr Llandaf c.1120-34 fe welir disgrifiad o'r ffin yr esgobaeth fel '*dyrytnant dy hanher din marchlytandy ol y gabr*'; rhaid gadael yr hen elfen dy 'i' allan er mwyn gweld yr enwau. Yn ei fap o Dde Cymru 1933, rhodd yr hanesydd William Rees yr enw '*rytnant*' [rhydant] nid i'r bwlch ym Mhengenffordd (SO 173300) a'r *din* marchlytan [*din(as)* 'caer' + *march* 'ceffyl' + *llydan* 'nerthol; amlwg, pwysig'] fel enw'r amddiffynfa.

Pen Tir 432m SO 175254

Pen 'copa, diwedd' + *tir* 'daear'; copa ar ddiwedd cefn uchel. Mae carn Oes Efydd ar chwâl ar y copa, ac un arall ar y bwlch cyn Mynydd Langors.

Twyn y Gaer 427m SO 294219

Unwaith eto safle amddiffynnol ardderchog; *twyn* 'bryn' + *y* + *caer* 'amddiffynfa', Cernyweg *ker* 'tref', o'r Frythoneg **cagro* 'anheddiad wedi ei gau'; hynny yw, safle cadarn wedi ei amgáu, amddiffynfa neu gastell. Twyn-y-gaer 1832 AO.

Allt yr Esgair 393m SO 126244

Allt 'llechwedd, llechwedd coediog' + *yr* + *esgair* 'cefnen'. Gair cyfarwydd i'r ieithoedd 'Celtaidd' yw esgair; Llydaweg *esker*, Hen Gernyweg *escher*, Gwyddeleg Canol *escir*. Enw sydd yn disgrifio trwm neu gefn hir o fynydd yn debyg i fraich, fel sydd yn y man. Ar un adeg yr oedd yr enw wedi ei gofnodi fel Allt yr Ysgrin; *ysgrîn* 'arch, beddrod'. Fe welir Carn Oes Efydd ar y copa ac amddiffynfa Oes Haearn cymhleth yn ymestyn dros 700m ar hyd y gefn. Allt yr y skin 1658 Swyddfa Cofnodion Mynwy, Allt yr yskyn 1695 Llawysgrifau Tredegar, Allt yr yskrin 1745 Gweithredoedd Lloyd, Allt-yr-ys-grin 1832 AO.

Bryn Arw 384m SO 302207

Mae'r gair *bryn* 'mynydd bychan' yn deillio o'r Hen Gymraeg *brinn* o'r Brythoneg **brunnjo-/ā-*, yn y pen draw o'r Indo Ewropeaidd **bhreus-* 'chwyddo'. Treigliad y gair *garw* 'caregog, heb ei drin' sydd ar gael yn yr ail elfen; hefyd, mae (*g*)*arw* 'bras, caled' yn air cyffredin yn y mynyddoedd. Mae'r defnydd o'r gair *garw* fel term topograffigol yn gyfatebol i ieithoedd eraill; fel yn Cernyweg *garow*, Llydaweg Canol *garu*, Hen Wyddeleg *garb* 'garw' o'r Gelteg **garuo* 'anwastad, creigiog, heb ei drin'. Brynarw Com. 1823 map Price, Bryn 1828 map Greenwood, Bryn Aro 1832 AO, Bryn Arrw 1888 6" AO.

Deri 376m SO 273176

Bryn bychan sydd yn sefyll allan o Ben y Fal ond yng nglwm a'r mynydd gyda chefnen gul o'r enw Cefn Minog; y tebygrwydd yw mai llygriad o'r gair *miniog* 'llym, awchlym' sydd. Mae ystyr y gair deri yn weddol syml, sef lluosog y gair *dar* 'derwen' o'r Indo Ewropeaidd **der-* neu **dar-* o'r gwreiddyn **deru-* 'pren bychan'. Pen Derwen 1823 map Henry Price.

Cefn Moel 365m SO 154229

Cefn 'cefnen' + *moel* 'llwm, noeth' yw enw'r bryn heddiw ac mae'r gair cefn yn eithaf cyffredin fel enw, o'r Gymraeg Canol *kefen*, Brythoneg/Gauleg **cemno* 'cefnen'. Ond, hwn i'w ddechrau'r 'cecyn y pennypynn march,' Llyfr Llandaf c.1120-34; enw a welir ar fap William Rees 1933 fel Pen y Pynmarch. Ffurf amrywiol ar y gair *cegin* 'ridge' yw'r *cecyn*; *pen* 'source, top' + *y* + *pynmarch* 'ffrwd melin'. Y tebygrwydd yw bo'r enw yn cyfeirio at beth sydd heddiw yn cael ei enwi fel Mynydd Llangors hefyd.

Allt Lwyd 316m SO 139213

Mynydd Buckland yw'r enw a welir ar fapiau'r AO cynnar yn 1832, nid yw'r enw ar y mapiau 1:25,000 heddiw; ond fe welir Buckland House ac y (SO 141214) y ffurf Buckland Hill. Mae'r map presennol, hefyd yn dangos yr enw Blaenbychlyd yn (SO 144216) sy'n rhoi'r synnwyr o enw afonig. Gweler y ffurf prin *bych* 'bychan' yn yr enw Dinbych; ond y tebygrwydd i'w mai llygriad lluosog y gair *bwch* 'carw gwrywaidd', sef *bychod* neu *bychau* sydd. Mae'r *-lyd* yn olddodiad ansoddeiriol cryfhaol ac yn rhoi synnwyr o ardal gyda llawer o geirw.

Ar fap hanesyddol William Rees 1933 mae un yn dod o hyd i'r enw Allt Lwyd fel enw'r bryn. Y rheswm yw bod un siarter yn Llyfr Llandaf c.1120-34 yn rhoi cyfeiriad at ffin Llandaf yn yr ardal fel: '..... *truy uysc dycilydris dyr alt luyt dy lech bychlyt*'. Sef '..... drwy Wysg i Cil Idris i Allt Lwyd i Llech Bychlyd'. Felly, y tebygrwydd i'w mai Llech Bychlyd yw'r garreg sefyll hynafol uwch Blaen Bychlyd [ym mhentref Bwlch], ac mai Bychlyd oedd enw'r nant a'r dyffryn bychan. Gyda'r awgrymiadau, ai Allt Lwyd yw'r bryn rhwng y graig ym mhentref Bwlch a'r Afon Wysg.

Myarth 292m SO 171208

Y tebygrwydd yw mai nid meiarth gyda *mei-* 'canol' + *garth* - a) 'cefnen, penrhyn'; neu, b) 'encilfan'; ond gyda ystyr arall i'r gair, sef *mei-* 'ymysg, yng nghanol' sydd. Myarth 'commons' Llawysgrifau Badminton 1612 & 1704, Penmyarth Hill 1828 Map Greenwood, Miarth AO 1832.

Ysgyryd Fach 271m 316136

Gwelir Ysgyryd Fawr uchod.